Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG48745**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Fframwaith Pontio Teg

Dyddiad cyhoeddi: 04 Rhagfyr 2023

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 11 Mawrth 2024

## Trosolwg

**Y Fframwaith Pontio Teg**

- **Mae'n pennu gweledigaeth gyffredin ynglŷn â'r ffordd y bydd Cymru yn cyflawni'r newidiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyrraedd sefyllfa sero net**
- **Bydd yn cydgysylltu ac yn cydlynu'r ffordd y meddyliwn am y newidiadau hynny a'r modd y gweithredwn yn eu cylch**
- **Mae'n cynnig ffynhonnell wybodaeth ac arweiniad (yn cynnwys pecyn cymorth) er mwyn galluogi'r rhai sy'n ysgogi'r newid i wneud hynny mewn ffordd a fydd yn ceisio gwneud iawn am anghydraddoldebau presennol ac osgoi creu anghydraddoldebau newydd.**

Yn Cymru Sero Net[1] (2021), ailddatganodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i sicrhau 'pontio teg' oddi wrth economi tanwyddau ffosil y gorffennol tuag at ddyfodol newydd carbon isel. Wrth inni symud tuag Gymru lanach, gryfach a thecach, bydd cyflawni pontio teg yn golygu na fyddwn yn gadael neb ar ôl. Byddwn yn datblygu dealltwriaeth glir o effeithiau'r newid, pa un a fyddant yn gadarnhaol neu'n negyddol, ynghyd â dealltwriaeth glir o sut gellir sicrhau y bydd yr effeithiau hyn yn cael eu dosbarthu'n deg mewn cymdeithas. Wrth wneud hynny, rydym wedi ymrwymo i ddysgu gwersi ar sail y gorffennol ac adeiladu dyfodol i Gymru a fydd yn cefnogi economi lesiant.

Mae cyflawni pontio teg yn golygu ystyried datgarboneiddio fel ffordd o gyflawni ein hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol ac economaidd, gan gyd-fynd â'n hymrwymiad i waith teg a Phartneriaeth Gymdeithasol. Mae'n cydnabod yr heriau technolegol, cymdeithasol ac economaidd sy'n perthyn i ddatgarboneiddio, ac mae'n gweithio i bennu ffyrdd y gallwn eu defnyddio i ymdrin ag anghydraddoldebau presennol ledled cymunedau a gweithlu Cymru ac atal anghydraddoldebau newydd rhag ffurfio.

Rhaid mynd ati mewn ffordd gydgysylltiedig a chydlynol i gynllunio pontio effeithiol a theg. Gwyddom y bydd angen gweld trawsnewid trwy bob sector o'n heconomi a'n cymdeithas os ydym am sicrhau y bydd modd i Gymru gyflawni ei thargedau hinsawdd. Gwyddom hefyd fod gan bob un ohonom rôl i'w chwarae.

**Mae'r Fframwaith Pontio Teg** yn pennu **ymagwedd polisi strategol** Llywodraeth Cymru **ar gyfer cyflawni pontio teg**. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail i hyn oll.

Hefyd, caiff y Fframwaith ei anelu at yr holl bartneriaid sy'n gysylltiedig â datblygu cynlluniau a chamau gweithredu ar gyfer datgarboneiddio. Ceir pecyn cymorth amlinellol yn Rhan 4 i gynorthwyo partneriaid.

**Yr ymgynghoriad hwn yw'r cam nesaf o ran datblygu ein hymagwedd, ac mae'n adeiladu ar ein Galwad am Dystiolaeth[2] a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022**. Mae'n ceisio eich barn ynglŷn â Fframwaith Pontio Teg arfaethedig i Gymru. Y nod yw cyhoeddi Fframwaith terfynol yn 2024, a fydd yn helpu Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i gynllunio a chyflawni camau gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Hefyd, bydd yn llywio ac yn datblygu ein Cynllun Cymru Sero Net nesaf, a gyhoeddir yn 2026.

[1] 42949 Ail Gynllun Cyflawni Carbon Isel Cymru Gyfan (2021-2025) (llyw.cymru)
[2] Pontio Teg tuag at Sero Net Cymru | LLYW.CYMRU

### Sut i ymateb

Dylech ymateb drwy lenwi'r ffurflen ar-lein neu lenwi'r holiadur a'i anfon at: NewidHinsawdd@llyw.cymru

Os ydych yn bwriadu ymateb yn ysgrifenedig, anfonwch ffurflenni wedi'u llenwi at:

Is-adran Newid Hinsawdd a Thlodi Tanwydd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

### Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

### Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Newid Hinsawdd a Thlodi Tanwydd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: NewidHinsawdd@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg/This document is also available in English: https://www.gov.wales/just-transition-framework

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn, a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r wybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Art 6(1)(e)

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, gall hyn gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i ymgynghoriadau, yna gellir comisiynu trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir

â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion cyn cyhoeddi eich ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gall Llywodraeth Cymru fod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu peth gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch, a'i weld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael ei 'ddileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: dataprotectionofficer@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Rhif ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys


Cynnwys

Cynnwys ..... 5

Pontio Teg – pam? ..... 6

Y Weledigaeth ..... 6

Ein Hymagwedd at Bontio Teg ..... 8

Y Modd y Datblygwyd y Fframwaith Pontio Teg ..... 9

Strwythur y Fframwaith Pontio Teg ..... 10

Rhan 1 – Integreiddio’r pontio teg yn ein penderfyniadau ..... 11

Cwmpas ..... 11

Ateb ..... 11

Cynllunio ar gyfer Pontio Teg trwy Ddefnyddio Egwyddorion Canllaw ..... 12

Egwyddorion Canllaw ..... 12

Cynllunio ar gyfer Gwahanol Fathau o Bontio ..... 14

Integreiddio mewn prosesau penderfynu ..... 16

Rhan 2 – Adeiladu ein Sylfaen Dystiolaeth ..... 17

Cwmpas ..... 17

Ateb ..... 17

Gweithredu ..... 17

Asesu’r effeithiau a’r cyfleoedd trwy ein Sectorau Allyriadau dros amser. ..... 18

Asesu’r Effeithiau a’r Cyfleoedd yn ymwneud â Chyflogaeth a Busnes ..... 18

Asesu’r Effeithiau a’r Cyfleoedd ar gyfer gwahanol grwpiau mewn cymdeithas 19

Asesu’r Effeithiau a’r Cyfleoedd mewn gwahanol rannau o Gymru (Gofodol) ... 20

Rhan 3 – Gweithio gyda Rhanddeiliaid a Chydgysylltu ein Hymateb ar y Cyd ..... 22

Cwmpas ..... 22

Ateb ..... 22

Gweithredu ..... 22

Arweiniad, Cydweithio, a Rolau a Chyfrifoldebau ..... 23

Y Camau Nesaf ..... 25

Rhan 4 – Pecyn Cymorth ..... 26

Atodiad – Camau Gweithredu ..... 34

Cwestiynau ..... 38

# Cyflwyniad

## Pontio Teg – pam?

Gyda llai na deng mlynedd ar ôl i osgoi chwalfa'r hinsawdd fel y rhybuddiwyd gan y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd[3], nid yw'r angen i ddatgarboneiddio ein heconomïau erioed wedi bod mor daer. Mae datgarboneiddio a meithrin y gallu i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn her fawr o ran polisi. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei huchelgais i gyrraedd targed Sero Net erbyn 2050. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd effeithiau newid hinsawdd ac effeithiau datgarboneiddio yn syml nac, o angenrheidrwydd, yn deg, ac y byddant yn effeithio ar wahanol sectorau, sefydliadau a phobl mewn gwahanol ffyrdd.

**Y Weledigaeth**
Mae'n bwysig i ni a'n rhanddeiliaid gael dealltwriaeth gyffredin o'r pontio. Rydym wedi datblygu gweledigaeth ddrafft ar gyfer y pontio – nodir y weledigaeth hon isod.

**Gweledigaeth ar gyfer Cymru Decach a Gwyrddach erbyn 2050**

Erbyn 2050, byddwn wedi pontio tuag at Sero Net, gan wneud Cymru yn lle tecach a gwyrddach i bawb fyw ynddo. Cyflawnwyd y pontio mewn partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, a chyda'n cymunedau. Mae busnesau a diwydiannau Cymru yn ffynnu oherwydd y syniadau hirdymor a grëwyd gan y partneriaethau – rhywbeth a sicrhaodd fod ein cymunedau a'n cyflogwyr wedi ymbaratoi ar gyfer y pontio a'u bod wedi gwneud y gorau o gyfleoedd ar gyfer swyddi'r dyfodol.

Mae'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol wedi cael eu cymhwyso â'r sgiliau iawn ar gyfer swyddi da gydag arferion Gwaith Teg, gan sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth, lle mae gweithwyr yn cael cyflog teg, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli, a lle maent yn ddiogel ac yn abl i gamu ymlaen mewn amgylchedd gweithio iach a chynhwysol lle caiff hawliau eu parchu.

Crëwyd ein diwydiannau gwyrdd llewyrchus trwy feddwl am y tymor hir, gan sicrhau felly bod ein cymunedau a'n cyflogwyr wedi ymbaratoi ar gyfer y pontio a'u bod wedi gwneud y gorau o gyfleoedd yn ymwneud â diwydiannau a swyddi gwyrdd y dyfodol. O ran y penderfyniadau a wnaethom wrth ddatblygu ein polisïau a'n camau gweithredu ar yr hinsawdd, fe wnaethom sicrhau ein bod yn deall beth oedd eu heffaith ar weithwyr, cymunedau, pobl, natur a busnesau. Roedd hyn yn cynnwys camau gweithredu i ymdrin â risgiau arferion cyflogaeth anfoesegol a chaethwasiaeth fodern mewn cadwyni cyflenwi.

Hefyd, mae'r pontio wedi helpu i leihau anghydraddoldeb iechyd yn sgil y camau hinsawdd a gymerwyd i wella cartrefi a deiet pobl, yn ogystal â'r opsiynau teithio sydd ar gael iddynt.

[3] IPCC — Y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd

Mae gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ddiwylliant Cymru a'r Gymraeg, gan esgor ar ganlyniadau iechyd cadarnhaol, llesiant personol, cydlyniant cymunedol a thwf economaidd yn enwedig mewn cymunedau gwledig.

Drwy gydol y broses, bu pobl Cymru yn hollbwysig o ran deall effaith ein ffordd o fyw ar yr hinsawdd ac o ran gwneud y penderfyniadau iawn drostynt eu hunain, i'w cymunedau ac i'r blaned. Ar ôl y pontio annheg a ddaeth i ran Cymru yn y ganrif flaenorol, rydym yn falch o sicrhau y bydd Cymru yn arweinydd byd-eang o ran pontio teg tuag at Sero Net. Rydym wedi gallu defnyddio ein profiadau i helpu'r bobl hynny sydd ar flaen y gad o ran newid hinsawdd ledled y Byd.

**Cwestiwn 1 – Beth yw eich barn ynglŷn â'r Weledigaeth arfaethedig ar gyfer Cymru Decach a Gwyrddach erbyn 2050?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- A yw'r weledigaeth a gynigir yn adlewyrchu eich barn ynglŷn â'r hyn y dylai Cymru wyrddach fod;
- Unrhyw ffactorau ychwanegol y dylid eu cynnwys yn y weledigaeth, yn eich tyb chi.

**Wrth bontio oddi wrth danwyddau ffosil tuag at ddyfodol glanach a thecach yng Nghymru, rhaid sicrhau y caiff y gwaith ei reoli'n ofalus** a rhaid sicrhau ein bod yn dysgu ar sail gwersi'r gorffennol. Mae ymagwedd Llywodraeth Cymru eisoes yn dod o dan ddylanwad gofynion deddfwriaethol, yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cryfhau'r angen i sicrhau yr eir i'r afael â gwaith datgarboneiddio a gwaith i wrthsefyll newid hinsawdd mewn ffordd a fydd yn osgoi creu neu waethygu anghydraddoldebau, gan ddefnyddio'r pontio i leihau neu ddileu'r anghydraddoldebau hyn. Bydd y llwybrau a roddir ar waith gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ochr yn ochr â dewisiadau a wneir gan y sector cyhoeddus ehangach a chan fusnesau, yn esgor ar effeithiau cadarnhaol a negyddol, ar bobl, ar weithlu Cymru, ar fusnesau ac ar gymunedau, a hynny mewn gwahanol ffyrdd, a byddant yn rhyngweithio â newidiadau cymdeithasol strwythurol a thechnolegol byd-eang.

**Mae'r newidiadau eisoes yn digwydd a byddwn angen cael ymateb 'Cymru gyfan' er mwyn sicrhau y gallwn elwa ar y manteision a lleihau unrhyw effeithiau negyddol**. Eisoes, mae newidiadau o ran busnes, marchnadoedd a thechnoleg yn newid yr economi yn y siwrnai tuag at sero net. Dros gyfnod yr ail gyllideb garbon (Cyllideb Garbon 2, 2021-25), rydym wedi bod wrthi'n datblygu ein sylfaen dystiolaeth ac yn gwella mwy fyth ar ein dealltwriaeth o'r modd y bydd y pontio'n effeithio ar Gymru. Wrth inni ddeall yn well beth yw effaith Cymru sero net a newidiadau ehangach, mae'n hanfodol inni gynnal ac adeiladu ar gyfranogiad amrywiaeth eang o randdeiliaid a phartneriaid yn ein hymagwedd a'n hymateb. Mae hyn yn golygu cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig a phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol o bob math. Hefyd, gan fyfyrio ar ein dyletswydd i roi sylw

dyladwy i hawliau plant, bydd yn bwysig inni ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn y broses hon.

## Ein Hymagwedd at Bontio Teg

Daeth pontio teg i'r amlwg yng nghyd-destun mudiad llafur y 1970au ac mae'r cysyniad wedi esblygu a lledaenu i feysydd eraill, megis grwpiau cyfiawnder amgylcheddol, y mudiad undebau lafur rhyngwladol a'r sector preifat[4]. Ers ei gynnwys yn rhaglith Cytundeb Paris 2015, mae hefyd wedi cael ei fabwysiadu mewn cylchoedd polisi byd-eang, cenedlaethol ac is-genedlaethol[5].

Dengys gwaith ymchwil[6] a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru na cheir unrhyw ddiffiniad o 'bontio teg' a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r term yn destun cryn drafod, ac mae hyn wedi arwain at roi sawl ymagwedd wahanol ar waith wrth ei fabwysiadu. Fodd bynnag, daw themâu cyson i'r amlwg yn sgil yr ymagweddau polisi a roddwyd ar waith gan wledydd a rhanbarthau tuag at gyflawni pontio teg. Mae'r rhain yn cynnwys creu fframwaith cydlynol, cynllunio hirdymor, meithrin gallu ac arian. Mae'r Fframwaith Pontio Teg arfaethedig a bennir yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r ymagweddau hyn.

Gan y ceir cynifer o ymagweddau tuag at gyflawni pontio teg, mater problemus yw creu diffiniad, fframwaith neu ymagwedd polisi gyffredinol ar gyfer pontio teg. Ond trwy ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel fframwaith canllaw, mae ein hymagwedd ni'n cydweddu â nifer o enghreifftiau rhyngwladol, megis ymagweddau a welir yn yr Alban ac yn Seland Newydd, lle mae mabwysiadu pontio teg oddi mewn i fframwaith llesiant wedi bod yn fuddiol. Dengys yr enghreifftiau hyn fod ymagweddau at bontio teg yn cyd-fynd â nodau a bwriadau sylfaenol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er ei bod yn bwysig addasu rhai pethau er mwyn adlewyrchu cyd-destunau cenedlaethol gwahanol.

Mae ein hymagwedd yn adeiladu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, deddfwriaeth cydraddoldeb, deddfwriaeth hawliau plant a deddfwriaeth hawliau dynol er mwyn datblygu egwyddorion i lywio'r pontio. Mae ein hymagwedd arfaethedig yn ystyried gwahanol fathau o gyfiawnder, yn cynnwys:

- Cyfiawnder dosbarthol, sy'n ceisio rhannu baich a manteision y pontio mewn ffordd deg, ynghyd â chydnabod a mynd i'r afael â gwahaniaethau sy'n bodoli eisoes rhwng grwpiau;
- Cyfiawnder gweithdrefnol, sy'n anelu at sicrhau cynhwysiant teg wrth wneud penderfyniadau;
- Cyfiawnder adferol, sy'n ceisio adfer yr effaith yn deg a defnyddio'r manteision i hybu cymunedau;
- Cyfiawnder cydnabyddol, sy'n ystyried gwahaniaethau diwylliannol-gymdeithasol rhwng pobl a rhwng grwpiau o bobl, eu safleoedd gwahanol

[4] Ymagweddau rhyngwladol at bontio teg | Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
[5] Y Cenhedloedd Unedig, Cytundeb Paris 2015. T.2 https://unfccc.int/most-requested/key-aspects-of-the-paris-agreement
[6] Ymagweddau rhyngwladol at bontio teg | Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

mewn cymdeithas, eu hanghenion penodol a'r pethau penodol sy'n eu gwneud yn agored i niwed;
- Cyfiawnder sy'n pontio'r cenedlaethau.

Gellir cymhwyso ein hagwedd gyffredinol at amrywiaeth o senarios, yn cynnwys rhai gofodol, sectoraidd neu sefydliadol. Hefyd, gellir cymhwyso'r ymagwedd hon at ddatblygu polisïau datgarboneiddio a pholisïau ymaddasu i newid hinsawdd.

***Cwestiwn 2* – Beth yw eich barn ynglŷn â'n hymagwedd arfaethedig at bontio teg yng Nghymru?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- Y defnydd a wneir o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel fframwaith canllaw;
- Y mathau o gyfiawnder a gynhwysir, a pha un a ellir adlewyrchu mathau eraill o gyfiawnder neu ymagweddau;
- Unrhyw ffactorau ychwanegol y dylid eu cynnwys, yn eich tyb chi.

## Y Modd y Datblygwyd y Fframwaith Pontio Teg

Gan adeiladu ar ein gwaith a'n hymchwil flaenorol ar arferion gorau rhyngwladol a nodir yn yr adran ar y dull, cynhaliodd Llywodraeth Cymru Alwad am Dystiolaeth ynglŷn â Phontio Teg rhwng Rhagfyr 2022 a Mawrth 2023. Nod yr Alwad oedd ceisio deall y buddion a'r effeithiau negyddol posibl, manteision ac arferion gorau, yn cynnwys sut gallwn ddefnyddio ac integreiddio dysg a gwybodaeth trwy'r penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid er mwyn deall yn well yr effeithiau a'r cyfleoedd a ddaw i ran Cymru a'r gofynion o safbwynt ategu'r pontio.

Derbyniwyd 117 o ymatebion i'r Galwad am Dystiolaeth. Gellir dod o hyd i'r dadansoddiad yma. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd wedi helpu i siapio'r ddogfen hon. Hefyd, fe wnaethom gynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i lywio'r ddogfen ymgynghori hon. Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw ehangu'r trafodaethau hynny.


## Strwythur y Fframwaith Pontio Teg

Y Fframwaith Pontio Teg yw’r bloc adeiladu cyntaf o ran sicrhau ymagwedd gydgysylltiedig a chydlynol gogyfer cynllunio pontio teg ar gyfer Llywodraeth Cymru ac eraill sy’n gysylltiedig â phontio tuag at sero net.

Mae’r Fframwaith yn cynnwys gweledigaeth gyffredin ac egwyddorion a fydd yn llywio’r pontio ac mae’n cydnabod bod angen tystiolaeth ynglŷn ag effeithiau a chyfleoedd, ynghyd â dadansoddiad o’r dystiolaeth honno. Hefyd, mae’r Fframwaith hwn yn pennu ein dull o gynnwys rhanddeiliaid a phartneriaid. Ymhellach, mae’n cynnwys cyfres o gamau gweithredu.
Trefnir y Fframwaith yn y ffordd a ganlyn:

- **Integreiddio’r pontio teg yn ein penderfyniadau:** Pennu’r Weledigaeth a’r gwaith Cynllunio ar gyfer Pontio Teg trwy ddefnyddio Egwyddorion Canllaw;
- **Adeiladu ein Sylfaen Dystiolaeth:** Dadansoddi Effeithiau a Chyfleoedd;
- **Gweithio gyda’n Gilydd a Gwella Dealltwriaeth:** Gweithio gyda rhanddeiliaid a Chydgysylltu Ymateb ar y Cyd:

**Ffigur 1 Fframwaith Pontio Teg**




**Cwestiwn 3 – Beth yw eich barn ynglŷn â strwythur cyffredinol y fframwaith arfaethedig?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- Pa mor briodol yw’r strwythur ar gyfer cyfathrebu ein hymagwedd a’n camau gweithredu ar gyfer pontio teg;
- Unrhyw elfennau ychwanegol y dylid eu cynnwys, yn eich tyb chi.

## Rhan 1 – Integreiddio'r pontio teg yn ein penderfyniadau

| |
|---|
| Hwyluso dealltwriaeth gyffredin o'r cyd-destun a gweledigaeth ar gyfer pontio llwyddiannus. Bydd egwyddorion canllaw yn ein cynorthwyo i gynllunio ar gyfer pontio cydlynus ac effeithiol, ynghyd â chyflawni pontio o'r fath. |

### Cwmpas

Yn ôl pob tebyg, bydd effaith prosesau pontio ynni yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r effeithiau a ddaw i ran gweithwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol mewn diwydiannau sy'n ddibynnol ar danwyddau ffosil. Rhaid i'r pontio ystyried cyfres ehangach o gyfranogwyr, materion a chyfleoedd, gydag ymyriadau mwy cymhleth nag amnewid swyddi ac ailhyfforddi gweithwyr yn unig. Bydd y pontio'n effeithio ar bawb yng Nghymru a bydd yn digwydd yng nghyd-destun anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes. Efallai y bydd pennu diffiniad yn cyfyngu arnom o ran cynllunio ar gyfer Pontio Teg.

Dengys gwaith ymchwil[7] a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru na cheir unrhyw ddiffiniad o 'bontio teg' a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r term yn destun cryn drafod, ac mae hyn wedi arwain at roi sawl ymagwedd wahanol ar waith wrth ei fabwysiadu'n rhyngwladol. Ceir gwahaniaethau a llawer o bethau cyffredin yn y polisïau a roddir ar waith gan wledydd a rhanbarthau. Er mwyn gallu sicrhau pontio teg yn y ffordd fwyaf effeithiol, dengys gwersi a ddysgwyd ar sail ymagweddau gwledydd eraill na ddylid ei ystyried fel rhyw 'ychwanegiad' at bolisïau hinsawdd, ond y dylid ei **ymwreiddio mewn amrywiaeth eang o bolisïau.**

Yng Nghymru, rydym mewn sefyllfa unigryw i ymateb i'r her hon a'r cyfle hwn, oherwydd mae gwaith cynllunio ar gyfer pontio teg yn cyd-fynd â nodau a bwriadau sylfaenol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Ateb

Ein hymagwedd yw hwyluso dealltwriaeth gyffredin o'r pontio teg tuag at Sero Net ar draws y llywodraeth, ar draws sefydliadau ac ar draws cymunedau Cymru. Rydym wedi datblygu **Egwyddorion Canllaw** i helpu i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac i helpu i gynllunio pontio cydlynus ac effeithiol, ac rydym wedi pennu camau gweithredu er mwyn helpu i **brif ffrydio ac integreiddio ein hymagwedd** mewn prosesau cynllunio a phenderfynu. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y bydd modd rheoli'r pontio'n ofalus, ac y bydd yn gyson. Mae'r adran ganlynol yn cynnwys:

- Egwyddorion Canllaw a fydd yn helpu i gynllunio ac integreiddio Pontio Teg;
- Cynllunio ar gyfer gwahanol fathau o bontio;
- Integreiddio mewn gwahanol brosesau penderfynu.

[7] Ymagweddau rhyngwladol at bontio teg | Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

## Cynllunio ar gyfer Pontio Teg trwy Ddefnyddio Egwyddorion Canllaw

### Egwyddorion Canllaw

Dangosodd y Galwad am Dystiolaeth fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnig fframwaith cryf ar gyfer cyflawni Pontio Teg tuag at economi carbon isel. Fodd bynnag, mae'n bosibl y ceir ymagweddau gwahanol.

Er mwyn helpu i sicrhau ymagwedd gyson, rydym wedi datblygu egwyddorion canllaw. Bwriad yr egwyddorion hyn yw helpu i gynllunio ac integreiddio pontio teg mewn ffordd a fydd yn ategu'r egwyddor datblygu cynaliadwy a gynhwysir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ffyrdd o Weithio. Caiff y rhain eu seilio ar arferion gorau rhyngwladol a bennir mewn gwaith ymchwil[8] ac enghreifftiau a ddeilliodd o'n Galwad am Dystiolaeth.

Maent yn cynnig gwell eglurder ynglŷn â sut gellir defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ategu tegwch mewn penderfyniadau. Hefyd, anelir at leihau'r baich trwy gyflwyno cyngor sy'n gydnaws â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn helpu i dynnu sylw at arferion da i sicrhau yr ymdrinnir â chyfiawnder hinsawdd a chyfiawnder cymdeithasol gyda'i gilydd.

Byddwn yn llunio trydedd gyllideb garbon gan ddefnyddio'r egwyddorion canllaw hyn, a hoffem i eraill ar draws sectorau economaidd, ar draws y gymdeithas ac ar draws sefydliadau unigol ddefnyddio'r rhain yn eu hymagwedd at bontio teg ac wrth gynllunio ar gyfer newid hinsawdd. Ni fydd yr egwyddorion canllaw hyn yn disodli disgrifyddion y nodau llesiant, ond gellir eu defnyddio i helpu i gynllunio Pontio Teg.

**Ffigur 2 Nodau Llesiant ac Egwyddorion Canllaw**

| Nodau | Egwyddorion a all helpu i lywio gwaith cynllunio pontio teg |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Buddsoddi mewn camau gweithredu a chynlluniau datgarboneiddio a buddsoddi mewn addysg a sgiliau er mwyn helpu i bontio tuag at Sero Net.<br><br>Adeiladu Sylfaen Dystiolaeth – Asesu'r cyd-destunau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, ynghyd â'r cyd-destun daearyddol a sectoraidd.<br><br>Sicrhau yr ymwreiddir tegwch mewn penderfyniadau i bawb, yn cynnwys gweithwyr a busnesau, yn cynnwys busnesau bach. |
| **Cymru gydnerth** | Sicrhau y bydd pontio tuag at Sero Net yn cyfoethogi'r **amgylchedd naturiol** ac na fydd yn ei niweidio. |
| **Cymru iachach** | Ystyried **iechyd** pobl a chymunedau wrth gynllunio mesurau a chamau gweithredu ar gyfer cyflawni Sero Net. |

[8] Ymagweddau rhyngwladol at bontio teg | Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

| | |
|---|---|
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Mynd ati i hyrwyddo **cydraddoldeb**, hawliau plant a hawliau dynol, ac atal anghydraddoldebau newydd rhag digwydd, gan ehangu cydraddoldeb a hawliau dynol ymhlith pobl â nodweddion gwarchodedig.<br><br>Sicrhau bod **costau a buddion yn cael eu dosbarthu'n deg**: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd a chymdeithasol sy'n bodoli eisoes trwy rannu'n eang y buddion a ddaw yn sgil gweithredu ar yr hinsawdd, gan sicrhau y caiff y costau eu dosbarthu ar sail y gallu i dalu amdanynt.<br>. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Ystyried yr effaith **fyd-eang** sydd ynghlwm wrth y pontio, atal allyriadau rhag cael eu symud dramor ac osgoi datgoedwigo. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Where decarbonisation support and contributes positively to the **culture** of Wales and the Welsh language, enabling positive health outcomes, personal wellbeing, community cohesion and economic growth especially in rural communities. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Mynd ati mor gynnar â phosibl i nodi, **cynnwys** a blaenoriaethu'r holl rai y bydd y pontio'n effeithio arnynt. |

### Cwestiwn 4 – Beth yw eich barn ynglŷn â'r egwyddorion canllaw?

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:


- Pa mor effeithiol fydd yr egwyddorion yn integreiddio pontio teg mewn prosesau penderfynu;
- A fyddai'r egwyddorion hyn yn ddefnyddiol i sefydliadau oddi allan i Lywodraeth Cymru;
- Sut gall sefydliadau ddefnyddio neu gymhwyso'r egwyddorion hyn er mwyn integreiddio Pontio Teg mewn prosesau penderfynu;
- A oes bylchau yn yr egwyddorion neu a oes pethau wedi'u hepgor;
- Y cysylltiad rhwng yr egwyddorion a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Cynllunio ar gyfer Gwahanol Fathau o Bontio**

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, bydd angen cynllunio mewn ffordd gydgysylltiedig a chydlynol. Gwyddom y bydd angen gweld trawsnewid ar draws sefydliadau, sectorau o'n heconomi, ein cymdeithas, a'r ffordd rydym yn datblygu polisïau hinsawdd. Mae pontio economaidd a chymdeithasol yn y gorffennol wedi dangos y gall newidiadau sydd heb eu cydgysylltu a'u cynllunio waethygu anghydraddoldeb ac anghyfiawnder. Trwy gynllunio sut awn ati i bontio, bydd modd atal hyn rhag digwydd eto, a hefyd bydd yn ein helpu i wneud yn fawr o gyfleoedd ac yn lleihau anghydraddoldebau o bosibl.

Bydd angen cynllunio'r pontio mewn amrywiaeth o gyd-destunau – ledled yr economi hyd at lefel y gymdeithas, ac o lefel sefydliadau i lefel sectorau. Rydym eisiau i bawb sy'n gysylltiedig â chynllunio Pontio Teg gydweithio a chynnwys rhanddeiliaid yn eu cynlluniau. Nodir senarios pontio enghreifftiol isod. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein Pecyn Cymorth (Rhan 4).

***Ffigur 3 Cynllunio Pontio Teg mewn cyd-destunau gwahanol***

| | | |
|---|---|---|
|  | **Geo-ofodol neu Sectoraidd** Dadansoddiad o ardal sectoraidd neu ddaearyddol, sy'n cynnwys terfynau cyflawni sefydliadau e.e. ardaloedd cyflawni Awdurdodau Lleol. | **Pwy -** Y Llywodraeth/Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus/busnesau eraill etc Grwpiau Cymunedol a Sefydliadau o'r ardal/sector **Sut -** Integreiddio a llywio cynlluniau presennol - fel cynlluniau Llesiant, Datganiadau Ardal, Cynlluniau Datblygu Economaidd ac ati neu ddatblygu cynlluniau Pontio Teg fel cynlluniau sectoraidd neu gynlluniau cymunedol |
|  | **Sefydliadau** Canolbwyntio ar bontio sefydliadau/diwydiannau (gan edrych ar y gweithrediadau). | **Pwy -** Busnesau/y Llywodraeth/ llywodraeth leol/Undebau etc **Sut -** Diweddaru cynlluniau hinsawdd, cynlluniau busnes a chynlluniau AD presennol neu ddatblygu cynlluniau Pontio Teg |
|  | **Datblygu Polisïau** Mae hyn yn cynnwys asesu'r angen am bolisïau yn y dyfodol i ymateb i fygythiadau a chyfleoedd (datblygu polisïau) neu edrych ar effeithiau a chyfleoedd y polisïau a ddatblygir (effaith polisïau). | **Pwy -** Dan arweiniad y Llywodraeth neu'r sector cyhoeddus ehangach **Sut -** Offer datblygu polisïau fel defnyddio tueddiadau'r dyfodol, cynlluniau busnes, y cyd-destun ehangach. Effaith polisïau – defnyddio offer presennol fel asesiadau effaith etc |

| | | |
|---|---|---|
|  | **Pontio Cyfannol**<br>Ystyried amryfal sectorau oddi mewn ac oddi allan i Gymru h.y. Llywodraeth y DU. | **Pwy –** Gellir ei ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd e.e. dan arweiniad y Llywodraeth gan edrych o safbwynt llwybr – mwy strategol – llai o fanylder<br>**Sut -** Cynllunio llwybrau Llywodraeth Cymru |

Mae ein hymagwedd at Bontio Teg yn rhoi cyfle inni ddatblygu golwg fwy cyfannol ar ein cynlluniau datgarboneiddio presennol ar draws pob lefel o'r gymdeithas ac oddi mewn i sefydliadau, ynghyd ag ystyried eu heffaith yn unol â'n hymrwymiadau i ysgogi tegwch a chydraddoldeb ym mhopeth a wnawn, gan sicrhau ein bod yn cyflawni canlyniadau gwell i bawb.

## Integreiddio mewn prosesau penderfynu

Cydnabyddir y bydd gan sectorau, sefydliadau ac eraill brosesau a strwythurau gwahanol y maent eisoes yn gweithio oddi mewn iddynt. Ar sail Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, byddwn yn ceisio cydweddu ac integreiddio ein hymagwedd at Bontio Teg ar draws amrywiaeth o strategaethau, polisïau a phrosesau penderfynu. Er enghraifft, mae gan gyrff y sector cyhoeddus ddyletswyddau eisoes yn ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac o'r herwydd rhaid iddynt roi ystyriaeth i gynllunio Pontio Teg wrth iddynt gyflawni eu Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

| **Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**<br>Wrth i gyrff cyhoeddus penodol wneud penderfynu strategol fel blaenoriaethau a gosod amcanion, mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried sut gallai eu penderfyniadau helpu i leihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys penderfynu mynd i'r afael â datgarboneiddio a newid hinsawdd. Wrth gynllunio mesurau a chamau gweithredu ar gyfer datgarboneiddio, rhaid i gyrff y sector cyhoeddus ddeall effaith y mesurau hynny. Mae pennu sefydliadau eraill, a'u cynnwys mewn penderfyniadau, yn allweddol o ran gwneud penderfyniadau iawn a sicrhau bod y penderfyniadau hynny'n esgor ar ganlyniadau cadarnhaol. |
|---|

Ymhellach, mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn rhoi dyletswydd partneriaeth gymdeithasol ar rai cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Wrth i'r cyrff cyhoeddus hynny osod eu hamcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac wrth iddynt wneud penderfyniadau strategol ar gyfer bodloni'r amcanion hynny, bydd yn ofynnol iddynt geisio consensws neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig (neu gyda chynrychiolwyr eraill y staff os na cheir undeb llafur cydnabyddedig).

Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru ei phrosesau, megis yr Asesiad Effaith Integredig, fel y gellir ystyried pontio teg. Byddem hefyd yn hoffi gweld busnesau, y trydydd sector, a chymunedau pan fo'n briodol, yn diweddaru eu prosesau er mwyn adlewyrchu pontio teg. Hefyd, bydd yr Egwyddorion Canllaw a'r Pecyn Cymorth yn anelu at gynorthwyo rhanddeiliaid a phartneriaid cymdeithasol i integreiddio Pontio Teg trwy roi cyngor ac arweiniad.

### Cwestiwn 5 – Beth yw eich barn ynglŷn â'r ymagwedd arfaethedig at gynllunio ar gyfer gwahanol fathau o Bontio?

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- Y gwahanol fathau o bontio a nodir;
- Pa brosesau y dylid eu defnyddio i integreiddio pontio teg mewn prosesau penderfynu;
- Cyd-destunau neu sefyllfaoedd ychwanegol pan fydd angen cynllunio ar gyfer pontio teg;
- Unrhyw ffactorau ychwanegol y dylai Llywodraeth Cymru eu cynnwys yn yr ymagwedd, yn eich tyb chi.

## Rhan 2 – Adeiladu ein Sylfaen Dystiolaeth

| |
|---|
| Mae angen inni ddatblygu ac adeiladu ein sylfaen dystiolaeth er mwyn deall y risgiau a'r cyfleoedd cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a all ddeillio o'r pontio. |

**Cwmpas**
Wrth i ddatgarboneiddio gyflymu ac ehangu, mae yna gyfleoedd sylweddol y gallwn wneud yn fawr ohonynt. Ond hefyd, mae yna heriau ac anawsterau i wahanol grwpiau o'r gymdeithas, ar wahanol adegau ac mewn gwahanol leoedd trwy Gymru. Mae angen inni ddeall y materion hyn yn well er mwyn sicrhau pontio teg a fydd yn hybu llesiant Cymru ac yn cyfrannu at ffyniant byd-eang a chynaliadwyedd hirdymor, heb waethygu anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes.

**Ateb**
Er mwyn helpu i gynllunio Pontio Teg, dangosodd y Galwad am Dystiolaeth ei bod yn hanfodol diffinio'r effeithiau (y risgiau a'r cyfleoedd) o'r cychwyn cyntaf, a'u cofnodi mewn sylfaen dystiolaeth. Mae angen gwahanol fathau o ddadansoddiadau i lywio gwaith cynllunio a strategaethau. Rhaid inni ddeall y risgiau a'r cyfleoedd posibl a all ddeillio o'r pontio, gan eu mesur pan fo modd. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau posibl ar gyflogaeth, amodau cymdeithasol, amodau economaidd, rheoli tir, a'r amgylchedd naturiol.

Mae hi'n arbennig o bwysig inni ddeall sut bydd risgiau a chyfleoedd yn cael eu dosbarthu. Bydd rhai pobl yn dioddef mwy o golledion neu fwy o galedi nag eraill, neu byddant yn llai galluog i ymdopi â newidiadau oherwydd eu rhywedd, eu hoedran, eu hethnigrwydd, eu statws cyflogaeth neu eu hanabledd, neu oherwydd ffactorau eraill. Gellir llywio hyn trwy ddadansoddi'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol ehangach. Bydd modd i Lywodraeth Cymru ystyried y dadansoddiad hwn fel rhan o'i phrosesau datblygu polisïau, megis trwy gyfrwng Asesiadau Effaith Integredig a thrwy ddatblygu llwybrau ar gyfer sectorau allyriadau. Hefyd, byddem yn hoffi gweld busnesau, y trydydd sector, a chymunedau pan fo'n briodol, yn diweddaru eu prosesau er mwyn adlewyrchu pontio teg.

Trwy gyfrwng ein Galwad am Dystiolaeth a gynhaliwyd yn ddiweddar, aethom ati i ddechrau ymgysylltu gyda'n rhanddeiliaid er mwyn adeiladu sylfaen dystiolaeth a fyddai'n gwella ein dealltwriaeth, yn yr un modd ag y bydd angen i eraill wella eu dealltwriaeth nhw. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i bennu a deall y risgiau a'r cyfleoedd cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol sy'n deillio o'r pontio.

**Gweithredu**

Rydym wedi pennu bod y lensys canlynol yn angenrheidiol er mwyn deall yr effeithiau a'r cyfleoedd dros amser, sef:

- ar draws ein Sectorau Allyriadau;
- ar Fusnes a Chyflogaeth;

- ar gyfer gwanhaol grwpiau mewn cymdeithas;
- mewn gwahanol rannau o Gymru.

Bydd y dadansoddiad penodol angenrheidiol – a'r offer a'r dulliau mwyaf priodol – yn dibynnu ar gyd-destun yr effeithiau a'r mathau o effeithiau a ragwelir. Gall hyn gynnwys data traddodiadol, megis arolygon, neu ffynonellau data mwy arloesol a all ddod i law yn y dyfodol. Cynhwysir rhagor o wybodaeth am y rhain, ynghyd â'r arferion a'r enghreifftiau gorau, yn y Pecyn Cymorth Pontio Teg terfynol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Fframwaith terfynol. Rydym wedi cynnig trosolwg byr o bob ymagwedd yn yr adran isod.

**Asesu'r effeithiau a'r cyfleoedd trwy ein Sectorau Allyriadau dros amser.**

Mae ein sectorau allyriadau'n cynnwys **y sector tai, y sector trafnidiaeth, y sector diwydiant a busnes, y sector pŵer, y sector defnydd tir, y sector cyhoeddus a'r sector gwastraff**. Trwy edrych ar dystiolaeth ar draws llwybrau'r sectorau allyriadau, gellir dadansoddi mesurau â chyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach gyda'i gilydd, dros gyfnod o amser. Mae gennym fan cychwyn ar gyfer ystyried effeithiau a chyfleoedd y mesurau hyn ar draws y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir gan fod gennym rywfaint o sicrwydd eisoes ynghylch rhai targedau polisi, uchelgeisiau neu dechnolegau fesul cam.

Er mwyn adeiladu ar hyn, nod ein Galwad am Dystiolaeth[9] a gynhaliwyd yn ddiweddar[10] oedd casglu tystiolaeth a syniadau gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, ledled Cymru a'r DU, ac ar draws ein sectorau allyriadau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth er mwyn ategu gwaith cynllunio pontio teg, gan weithio gyda rhanddeiliaid fel y bo'n briodol. Adlewyrchir hyn yn ein hadran camau gweithredu. Bydd ein pecyn cymorth yn cynnwys rhagor o wybodaeth ynglŷn â beth mae hyn yn ei olygu i randdeiliaid a sut gall eraill gyfrannu.

**Asesu'r Effeithiau a'r Cyfleoedd yn ymwneud â Chyflogaeth a Busnes**

Yn anochel, bydd unrhyw bontio economaidd yn amharu ar y farchnad lafur. Bydd pontio yn creu swyddi newydd, yn cael gwared â rhai swyddi ac yn trawsnewid swyddi eraill. Yn 2023, cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd[11] ei asesiad o'r gweithlu sero net. Daeth y Pwyllgor i'r casgliadau canlynol:

- Ni fydd y mwyafrif o weithwyr yn gweld effeithiau mawr. Bydd oddeutu un rhan o bump o weithwyr yn gweld yr effeithiau mwyaf – y rhai a gyflogir ar hyn o bryd mewn sectorau a fydd â rôl hollbwysig o ran cyflawni Sero Net, yn aml yn y degawd nesaf.
- Mae gan bontio tuag at Sero Net y potensial i greu mwy o swyddi nag a gollir, mewn sectorau carbon isel megis ôl-osod adeiladau, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a gweithgynhyrchu cerbydau trydan.
- Mae'r pontio'n cynnig amryw byd o gyfleoedd – yn cynnwys ysgogi twf mewn meysydd â chyflogaeth hanesyddol isel a chreu gweithlu mwy amrywiol mewn

[9] Pontio Teg tuag at Sero Net Cymru | LLYW.CYMRU

[10] A Net Zero workforce – Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (theccc.org.uk)

sectorau sy'n gwbl greiddiol i Sero Net. Fodd bynnag, mae risgiau ynghlwm wrth y pontio hefyd.
- Mae gan y llywodraeth ysgogiadau polisi y gall eu defnyddio i gynorthwyo gweithwyr yn ystod y pontio tuag at Sero Net. Nid oes yn rhaid i'r llywodraeth ymyrryd ym mhob sector o'r economi, ond mae angen cynlluniau cliriach er mwyn gallu gwneud yn fawr o botensial y pontio a rheoli'r risgiau sydd ynghlwm wrtho.

Er mwyn cynllunio pontio teg, mae angen inni ddeall sut gallai'r pontio effeithio ar weithwyr, a sut gallai gwahanol strategaethau pontio effeithio ar ganlyniadau cyflogaeth. Bydd rhai rhannau o'r economi'n newid yn gyflymach wrth i gyfleoedd newydd ddod i'r amlwg, a/neu mewn gwahanol leoliadau. Gallai hyn arwain at heriau i fusnesau a gweithwyr o ran pontio'n llwyddiannus, dysgu sgiliau newydd neu ddiweddaru eu sgiliau presennol mewn da bryd er mwyn bodloni'r uchelgeisiau sero net hyn ar gyfer y dyfodol.

O ran sefydliadau, gweithwyr ac eraill yr effeithir arnynt, mae hi'n bwysig iddynt weithio gyda'i gilydd i gynllunio'r pontio. Cyhoeddir rhagor o wybodaeth am y modd y gellir gwneud hyn yn y Pecyn Cymorth Pontio Teg.

### Asesu'r Effeithiau a'r Cyfleoedd ar gyfer gwahanol grwpiau mewn cymdeithas

Yng Nghymru, efallai y bydd grwpiau incwm is neu bobl sy'n perthyn i grwpiau mwy agored i niwed yn wynebu risg uwch o ddioddef effeithiau negyddol – ac yn ei dro, golyga hyn y bydd pobl â nodweddion gwarchodedig hefyd yn wynebu risg uwch. Er enghraifft, dengys data Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog ar gyfer Cymru fod cefndir ethnig heb fod yn wyn yn gysylltiedig â thebygolrwydd uwch y bydd pobl yn dioddef tlodi incwm cymharol, a bod byw gydag unigolyn anabl yn gwneud tlodi incwm cymharol yn fwy tebygol i blant a phobl oedran gweithio[12]. Mae'r sefyllfa economaidd bresennol yn tynnu sylw at anghydraddoldebau sy'n dal i fodoli yn ein system gymdeithasol; o'r herwydd, mae hi'n bwysicach nag erioed inni sicrhau tegwch wrth gyflawni datgarboneiddio mewn ffordd a fydd yn gwella bywydau pobl.

Hefyd, mae effaith y pandemig COVID-19, a'r heriau economaidd a ddaeth wedyn, wedi dwysáu mwy fyth ar anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru[13]. Yn ddi-os, mae'r elfennau hyn wedi effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol pobl trwy gymunedau Cymru, ond maent wedi effeithio'n anghymesur ar rai pobl a chymunedau. Gwyddom fod effeithiau niweidiol wedi dod i ran dewisiadau'n ymwneud â bwyd a gweithgarwch corfforol mewn cymunedau lle'r oedd anghydraddoldebau iechyd yn bodoli eisoes.

**Cymru Iachach**

Yn y Galwad am Dystiolaeth a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar[14], dangoswyd bod y pontio tuag at Sero Net yn cynnig cyfle i wella iechyd a llesiant y cyhoedd, er enghraifft trwy wella ansawdd yr aer, trwy gynyddu teithio gweithredol, trwy

[12] Llywodraeth Cymru (2021). Tlodi Incwm Cymharol. Ebrill 2019 i Fawrth 2020
[13] Adolygiad o dystiolaeth am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau (llyw.cymru)
[14] Pontio Teg tuag at Sero Net Cymru | LLYW.CYMRU

wella ansawdd cynhyrchu bwyd a thrwy ddarparu mynediad i fannau gwyrdd. Er mwyn sicrhau y bydd modd inni wneud yn fawr o'r cyfle hwn, pwysleisiodd yr ymatebion ei bod yn hanfodol inni sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei hymwreiddio mewn polisïau.

Fodd bynnag, nododd rhai ymatebion fod pobl ag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor mewn perygl o ddioddef effeithiau anghymesur yn sgil symud tuag at Sero Net. Mae pobl ag anableddau a phobl â chyflyrau iechyd yn wynebu effeithiau anghymesur yn sgil byw mewn cartrefi oer a llaith. Yn aml, maent yn gorfod gwario mwy o arian ar wresogi eu cartrefi er mwyn creu tymheredd cyfforddus sy'n lleddfu eu cyflyrau, yn enwedig yn achos problemau anadlu. Er y bydd gwella effeithlonrwydd amgylcheddol cartrefi o fudd i'r unigolion hyn yn y tymor hir, mae'r costau sy'n gysylltiedig â biliau uwch a chyflwyno'r newidiadau yn golygu eu bod mewn perygl gwirioneddol o gael eu gadael ar ôl.

Gall addasu ein ffordd o fyw er mwyn delio â'r argyfwng costau byw a'r argyfwng hinsawdd gynnig rhywfaint o gyfle i leihau ynni a defnyddio llai o nwyddau a deunyddiau. Ond gwyddom nad yw pawb trwy'r boblogaeth yn creu allyriadau carbon mewn modd cyfartal a gwyddom hefyd nad yw pawb yn gallu ymateb i'r heriau oherwydd nad oes ganddynt gymaint o gyfle neu adnoddau. Bydd y bobl hynny sy'n fwyaf agored i'r argyfwng costau byw ac i effeithiau'r hinsawdd yn tueddu i fod ag ôl troed carbon is[15]. Byddwn yn anelu at ddatgloi'r buddion er mwyn gwella llesiant, a chreu cymdeithas carbon isel a mwy cyfartal i bawb.

Er mwyn sicrhau pontio gwirioneddol deg, wrth ddatblygu polisïau rhaid rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu â'r rhai a all wneud y newid a'r rhai sy'n fwyaf agored i niwed yn sgil y pontio, yn cynnwys grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf, er mwyn sicrhau ymagwedd wirioneddol deg. Byddwn yn ceisio lleihau unrhyw 'effeithiau goferu' negyddol yn sgil datgarboneiddio, byddwn yn achub ar gyfleoedd i gynyddu'r buddion a ddaw i ran y gymdeithas, byddwn yn gwneud yn fawr o gyfleoedd i leihau gwahaniaethau, a byddwn yn osgoi symud allyriadau dramor neu'n osgoi niwed amgylcheddol a chymdeithasol. Ymhellach, mae gan y trydydd sector, yn cynnwys gwirfoddolwyr, sefydliadau cymunedol a chyfleusterau cymunedol, rôl bwysig (ac unigryw, mewn sawl ffordd); ond mae'r sector hwn hefyd yn wynebu heriau arbennig.

Bydd angen inni gynnwys pobl yn ystod pob cam, a dyna pam y caiff pontio teg ei ymwreiddio yn ein hegwyddorion canllaw ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd[16].

**Asesu'r Effeithiau a'r Cyfleoedd mewn gwahanol rannau o Gymru (Gofodol)**

Caiff daearyddiaeth economaidd a dynol Cymru ei siapio hyd heddiw gan waddol diwydianeiddio a phontio economaidd blaenorol: ardaloedd trefol mawr ac ardaloedd mawr o gwmpas trefi. Datblygodd De Cymru a Gogledd Ddwyrain Cymru ar sail

[15] It's high time to talk about the climate impacts of high consumers | Prifysgol Hallam Sheffield (shu.ac.uk)
[16] Gweithredu ar Newid Hinsawdd – Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2023-26 (llyw.cymru)

cloddio am lo a diwydiannau trwm; ac yng Ngogledd Cymru, gwelir bod chwarela, amaethyddiaeth a'r môr wedi dylanwadu'n fawr ar anheddau a thirweddau. I raddau helaeth, mae Cymru wedi troi ei chefn ar fodel economaidd sy'n seiliedig ar gloddio, ond ar gyfartaledd mae gweithgynhyrchu'n dal i fod yn rhan fwy o economi Cymru o gymharu â gweddill y DU.

Mae'n bosibl y bydd effeithiau'r pontio, yn cynnwys effeithiau cadarnhaol a negyddol, yn cael eu dosbarthu'n anghyfartal trwy'r wlad, gyda'r sectorau sy'n fwyaf diamddiffyn i'r pontio yn crynhoi mewn rhanbarthau penodol – nifer ohonynt yn delio'n barod â heriau economaidd-gymdeithasol eraill. Nid yw pontio teg yn golygu y bydd y swyddi hyn yn gadael Cymru. Mae'n golygu bod angen inni weithio gyda chyfranogwyr allweddol, yn cynnwys y byd diwydiant, Llywodraeth y DU ac eraill i gynorthwyo'r diwydiannau hyn i bontio, fel y bydd modd iddynt gynhyrchu cynhyrchion mewn ffyrdd carbon is. Bydd angen gwybodaeth a sgiliau newydd ar gyfer gwneud hyn.

Hefyd, fe fydd yna gyfleoedd i ehangu ein gweithluoedd yng Nghymru, gyda sgiliau a swyddi sy'n ofynnol i bontio tuag at sero net mewn sectorau – sgiliau a swyddi nad ydynt yn lleoliad-benodol ac y bydd eu hangen ledled Cymru, megis gosod pympiau gwres a swyddi ar gyfer ôl-osod adeiladau.

Mae'r amcangyfrifon yn awgrymu bod yna oddeutu 11,000 o weithwyr yn gweithio'n uniongyrchol yn economi carbon isel Cymru yn 2020[17]. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio yn yr economi carbon isel yn gweithio gyda 'chynhyrchion effeithlon o ran ynni', sy'n cynnwys cynhyrchu a gosod cynhyrchion effeithlonrwydd ynni megis goleuadau effeithlon o ran ynni, a systemau rheoli ynni fel mesuryddion deallus. Fodd bynnag, disgwylir y bydd newidiadau mawr yn digwydd yn y dyfodol o ran ble bydd cyfleoedd swyddi newydd yn codi. Er mwyn inni allu rheoli'r newid hwn yn effeithiol, bydd yn hanfodol inni weithio gyda rhanddeiliaid a bydd yn hanfodol inni gael ymchwil a thystiolaeth.

Hefyd, bydd Ymchwil a Thystiolaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau y bydd pawb yn deall yn llwyr y modd y gellir dosbarthu costau a buddion y pontio, fel y gellir cynorthwyo i lywio penderfyniadau. Mae hyn yn golygu pennu ac adnabod bylchau yn ein gwybodaeth ynglŷn ag effeithiau posibl y pontio at sero net, yn ogystal â mynd i'r afael â'r bylchau hynny.

**Cwestiwn 6 – Beth yw eich barn ynglŷn â'r lensys arfaethedig ar gyfer archwilio'r effeithiau a'r cyfleoedd economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a fydd yn deillio o'r pontio?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- Effeithiau a Chyfleoedd ar draws ein Sectorau Allyriadau dros amser;
- Effeithiau a Chyfleoedd ar Gyflogaeth a Busnes;
- Effeithiau a Chyfleoedd ar gyfer gwahanol grwpiau mewn cymdeithas;
- Effeithiau a Chyfleoedd mewn gwahanol rannau o Gymru;
- Unrhyw ffactorau ychwanegol y dylid eu hystyried, yn eich tyb chi.

---

[17] Arolwg 'Low Carbon and Renewable Energy Economy' (2020), Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Low carbon and renewable energy economy, UK – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

## Rhan 3 – Gweithio gyda Rhanddeiliaid a Chydgysylltu ein Hymateb ar y Cyd

| |
|---|
| Mae angen inni weithio gyda rhanddeiliaid wrth gynllunio a chydgysylltu'r newidiadau effeithiol a pharhaol y mae eu hangen i bontio'n deg tuag at Sero Net |

**Cwmpas**
Po gynharaf yr awn ati i gynyddu cydweithredu gweithredol ar gyfer pontio tuag at sero net, po orau fydd ein sefyllfa i leihau'r bygythiadau a chynyddu'r cyfleoedd. Rhaid inni gydweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid, yn cynnwys partneriaid cymdeithasol, er mwyn creu a chynnal proses gynllunio gynhwysol.

Dylai'r rhai y gallai'r pontio effeithio arnynt – yn cynnwys grwpiau a chymunedau a ymyleiddiwyd, ymhlith eraill – gael cyfle i ddylanwadu ar y modd y caiff risgiau a chyfleoedd eu diffinio, yn ogystal â chyfle i ddylanwadu ar y weledigaeth ar gyfer pontio, ar y gwaith cynllunio ac ar y strategaethau sy'n angenrheidiol ar gyfer pontio.

**Ateb**
Dangosodd y Galwad am Dystiolaeth fod cydweithio rhwng y sector cyhoeddus, busnesau, gweithwyr, undebau a chymunedau yn egwyddor sylfaenol ar gyfer pob penderfyniad yn ymwneud â'r Pontio Teg. Ystyrir bod cyfranogiad dinasyddion a chyfiawnder gweithdrefnol yn elfennau hollbwysig wrth bontio tuag at Sero Net, er mwyn sicrhau y bydd y pontio'n gyfiawn ac yn deg.

Mae hi'n bwysig creu deialog ymhlith rhanddeiliaid er mwyn gallu roi'r broses bontio ar waith. Bydd y newidiadau'n effeithio ar sefydliadau, gweithluoedd, economïau lleol a chymunedau. Felly, rhaid inni sicrhau y bydd gennym broses glir a fydd yn galluogi'r bobl o dan sylw i gymryd rhan mewn deialog.

Rhaid mynd ati mor gynnar â phosibl i bennu'r modd y gall dinasyddion gyfrannu. Dylent barhau i gyfranogi drwy gydol y broses gynllunio, y broses weithredu a'r broses werthuso, fel y bydd modd dod o hyd i broblemau ac atebion posibl drwy gydol yr holl brosesau. Gall deialog gynnar ymhlith rhanddeiliaid greu'r momentwm ar gyfer gwaith cynllunio manylach.

Mae'r ymagwedd hon yn adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, mae yna lawer o randdeiliaid a phartneriaid na chânt eu henwi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae modd i lawer mwy o randdeiliaid ar draws amryfal feysydd polisi cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol fod yn bartneriaid allweddol o ran arwain y pontio tuag at sero net. Hefyd, rhaid mynd ati i ddiffinio'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer cynllunio a gweithredu pontio teg tuag at Sero Net.

**Gweithredu**
Prif ganolbwynt y Fframwaith hwn yw disgrifio ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at bontio teg. Hefyd, rydym yn pennu cyfres o gamau gweithredu i ategu'r ymagwedd honno (Atodiad) a nodwn fod angen i randdeiliaid a phartneriaid fabwysiadu ymagweddau tebyg. Fel y nodir uchod, bydd Pontio Teg yn cael ei ysgogi ar sawl lefel, mewn sawl sector ac ar draws pob ardal ddaearyddol. Cyflwynir pecyn cymorth

i gynorthwyo ac arwain rhanddeiliaid wrth iddynt ymgymryd â'u cynlluniau pontio eu hunain.

**Arweiniad, Cydweithio, a Rolau a Chyfrifoldebau**
Er mwyn cyflawni pontio llwyddiannus a theg, bydd angen i lywodraethau, cynrychiolwyr diwydiannau a busnesau, sefydliadau academaidd a chymunedau gydweithio. Bydd angen i'r Pontio Teg ddigwydd ar sawl lefel (gweler Ffigur 3).

- **Rôl Llywodraeth Cymru mewn Pontio Teg**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig arweiniad o ran datblygu ymagwedd at bontio teg. Byddwn yn parhau i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth a'r gallu er mwyn cynllunio a gweithredu newid. Byddwn yn sicrhau y bydd pontio teg yn cael ei integreiddio'n effeithiol yn ein polisïau hinsawdd cenedlaethol. Wrth wneud hynny byddwn yn anelu at gydlunio a chydgyflawni gyda'r rhai y bydd y pontio tuag at sero net yn effeithio fwyaf arnynt.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio tystiolaeth o ffynonellau perthnasol i ategu ein hymagwedd, gan weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth pan fyddai tystiolaeth o'r fath yn cael effaith sylweddol ar benderfyniadau.

- **Rôl Llywodraeth y DU**

Mae llawer o'r ysgogiadau mwyaf pwerus o ran cyflawni pontio teg, megis pwerau dros les a masnach, yn gorwedd gyda Llywodraeth y DU. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth y DU ar faterion a gadwyd yn ôl fel y bydd modd defnyddio'r pwerau hyn yn effeithiol yng Nghymru.

- **Tîm Cymru**

Mae'r Fframwaith hwn yn cynnig sylfaen ar gyfer ymagwedd gydweithredol at gyflawni sy'n cynnwys rhwydwaith eang o bartneriaid Tîm Cymru[18] (gan gynnwys cyrff gwasanaethau cyhoeddus eraill, busnesau a sefydliadau'r sector gwirfoddol ledled Cymru). Dylai partneriaid Tîm Cymru chwilio am gyfleoedd i gydweithio er mwyn mynd i'r afael â phontio teg yn eu cynlluniau a'u camau gweithredu ar yr hinsawdd.

| |
|---|
| Fel rhan o ymagwedd Tîm Cymru, mae Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus, busnesau a chymunedau ledled Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â heriau cyffredin yn ymwneud â'r argyfwng hinsawdd a natur. |

- **Oddi mewn i sefydliadau unigol**

Os ydym am lwyddo i bontio'n deg, bydd yn hanfodol cael partneriaeth gref rhwng busnesau, undebau, gweithluoedd a chymunedau lleol. Golyga hyn y bydd angen meithrin gwybodaeth a gallu ar draws holl rannau'r gymdeithas yng Nghymru, yn cynnwys ar lefel sefydliadau unigol o bob math: busnesau, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector. Dylai sefydliadau ddefnyddio'r fframwaith hwn i gychwyn neu ddiweddaru cynlluniau i sicrhau Pontio Teg.

[18] Newid yn yr Hinsawdd: Dull Ymgysylltu Llywodraeth Cymru 2022-2026 (llyw.cymru)

- **Cymunedau**

Rhaid parhau i ymgysylltu'n weithredol gyda chymunedau, y sector gwirfoddol a rhwydweithiau cymunedol er mwyn archwilio mentrau a chyfleoedd i feithrin gallu'n ymwneud â phontio teg. Hefyd, bydd angen rhoi cymorth i bobl yn y gymuned sy'n dymuno cymryd camau i helpu eu cymuned i wneud newidiadau.

- **Y byd academaidd ac addysgwyr**

Gall prifysgolion a sefydliadau ymchwil eraill chwarae rhan hollbwysig yn y dasg o gynllunio'r cyfnod pontio. Bydd modd iddynt fod yn bartneriaid allweddol yn y gwaith dadansoddi sy'n angenrheidiol ar gyfer cynlluniau o'r fath (gweler **Rhan 2**) a hefyd o ran ailsgilio ac ailhyfforddi yn y dyfodol agos.

Yn ôl pob tebyg, bydd angen i lywodraethau, cynrychiolwyr diwydiannau, a sefydliadau academaidd gydweithio er mwyn cydweddu'r sectorau addysg ac ymchwil gydag anghenion pontio teg.

**Cwestiwn 7 – Beth yw eich barn ynglŷn â'r arweiniad, y cydweithio, a'r rolau a'r cyfrifoldebau arfaethedig ar gyfer cyflawni Pontio Teg?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- Llywodraeth Cymru;
- Llywodraeth y DU;
- Tîm Cymru;
- Oddi mewn i sefydliadau unigol;
- Cymunedau;
- Y byd academaidd ac addysgwyr;
- Unrhyw randdeiliaid eraill y dylid eu cynnwys, yn eich tyb chi.

## Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd19 yn pennu fframwaith y gall Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid ei ddefnyddio i gydweithio er mwyn cynorthwyo pobl a chymunedau Cymru a'u cynnwys mewn gweithredu ar yr argyfyngau hinsawdd a natur. Wrth gyflwyno'r dystiolaeth, mae'n cyfleu pa mor bwysig yw sicrhau y caiff tegwch ei ymwreiddio yn yr ymagwedd, er budd pobl Cymru a chenedlaethau'r dyfodol. Y strategaeth hon fydd y sylfaen ar gyfer sut byddwn yn cynnwys y cyhoedd yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt mewn perthynas â phontio teg.

Mae cyfraniad gweithwyr, cymunedau a busnesau yn hollbwysig o ran sicrhau y bydd cynlluniau a pholisïau pontio teg yn berthnasol ac yn effeithiol.

**Cwestiwn 8 – Yn eich tyb chi, sut gellir mynd ati yn y ffordd fwyaf effeithiol i gynnwys pobl a chymunedau Cymru yn y gwaith o gynllunio ar gyfer pontio teg?**

---

[19] Gweithredu ar Newid Hinsawdd – Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2023-26 (llyw.cymru)

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- Gwahanol ymagweddau y gallai Llywodraeth Cymru eu hystyried;
- Sut byddech yn cynnwys unigolion yn eich busnes/cymuned/sefydliad i sicrhau bod y gwaith cynllunio'n berthnasol ac yn effeithiol, a pha wybodaeth a allai eich helpu i wneud hyn.

## Y Camau Nesaf

**Yr ymgynghoriad hwn yw'r cam nesaf ar gyfer datblygu ein hymagwedd, ac mae'n adeiladu ar ein Galwad am Dystiolaeth**[20] **a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022**. Mae'n ceisio eich barn ynglŷn â Fframwaith Pontio Teg arfaethedig i Gymru.

Y nod yw cyhoeddi Fframwaith terfynol yn 2023, a fydd yn helpu Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i gynllunio a chyflawni gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Hefyd, bydd yn llywio ac yn helpu i ddatblygu ein Cynllun Cymru Sero Net nesaf, a gyhoeddir yn 2026.


[20] Pontio Teg tuag at Sero Net Cymru | LLYW.CYMRU

# Rhan 4 – Pecyn Cymorth

## Pecyn Cymorth Pontio Teg

Diben y pecyn cymorth hwn yw cynorthwyo ymarferwyr i gynllunio ar gyfer Pontio Teg yng Nghymru. **Dylid ei ddefnyddio ar y cyd â'r egwyddorion canllaw**. Ni fydd yr egwyddorion canllaw hyn yn disodli disgrifyddion y nodau llesiant, ond gellir eu defnyddio i helpu i gynllunio Pontio Teg. **(*sylwer: cynhelir ymgynghoriad yn eu cylch ar hyn o bryd*).** Bydd modd addasu'r Pecyn Cymorth a bydd yn cael ei ddiweddaru wrth inni ddod ar draws rhagor o astudiaethau achos ac arferion da.

**Mae'r pecyn cymorth yn canolbwyntio ar dri phrif faes yn ymwneud â'r fframwaith**




Yn yr adran ganlynol, ceir disgrifiad manylach o'r egwyddorion canllaw er mwyn cynorthwyo ac arwain rhanddeiliaid. Datblygwyd y rhain ar sail ymatebion a gafwyd i'r Galwad am Dystiolaeth.

| Nodau Llesiant | Egwyddorion Canllaw ar gyfer Pontio Teg | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Cymru Lewyrchus**<br>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. | 1. Buddsoddi mewn camau gweithredu a chynlluniau datgarboneiddio a buddsoddi mewn addysg a sgiliau newydd i ategu'r gwaith o bontio tuag at Sero Net. | • Ceisiwch osgoi buddsoddiadau newydd sy'n gysylltiedig ag asedau neu weithgareddau carbon uchel. Hynny yw, peidio â chreu ymglymiad at garbon na pharatoi'r llwyfan ar gyfer asedau amddifad. Ni ddylai rhaglenni cymorth ddwysáu dibyniaeth gweithwyr – na chyfundrefnau gwleidyddol nac economïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol – ar weithgareddau economaidd sy'n seiliedig ar danwyddau ffosil.<br>• Aseswch yr allyriadau sy'n gysylltiedig â'ch asedau a'ch gweithgareddau. |
| | 2. Adeiladu'r Sylfaen Dystiolaeth – asesu'r cyd-destunau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, ynghyd â'r cyd-destun daearyddol a sectoraidd. | • Cynhaliwch asesiad cychwynnol ar yr effeithiau a'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol i bontio'n deg tuag at Sero Net dros y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, yn ogystal â diweddaru cynlluniau presennol neu lunio cynlluniau newydd, gan ymgorffori cyd-destunau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.<br>• Dylai cynlluniau lleihau allyriadau gynnwys allyriadau cwmpas 2 a 3 pan fo'n briodol.<br>• Cydnabyddwch y rôl bwerus sydd gan ddata a thystiolaeth o ran helpu i leihau risgiau datblygu, ynghyd â lleihau costau ac ysgogi gwelliannau parhaus mewn perfformiad gweithredol. Bydd hyn yn helpu'r bobl/sefydliadau o dan sylw i wneud penderfyniadau cytbwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn ogystal ag ymdrin â heriau yn ymwneud â chaniatáu a chynllunio gofodol. |
| | 3. Sicrhau yr ymwreiddir tegwch mewn penderfyniadau i bawb, yn cynnwys gweithwyr a busnesau, yn cynnwys busnesau bach. | • Wrth gynllunio ac ymgorffori gwybodaeth a buddsoddiad ar gyfer Sero Net, ystyriwch a fydd pawb yn gallu cael gafael ar y pethau hyn mewn ffordd deg. Ewch i'r afael â gwaith dadansoddi rhanddeiliaid er mwyn pennu a blaenoriaethu cyfranwyr allweddol i sicrhau y cynllunnir ar gyfer tegwch. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cymru gydnerth:** Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd). | 4. Sicrhau y bydd pontio tuag at Sero Net yn cyfoethogi'r amgylchedd naturiol ac na fydd yn ei niweidio. | • Defnyddio Asesiadau Amgylcheddol e.e. Asesiadau Amgylcheddol Strategol, Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd i ddeall yr effeithiau a'r cyfleoedd mewn perthynas â'r amgylchedd naturiol. |
| **Cymru iachach:** Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle mae modd deall dewisiadau ac ymddygiad sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. | 5. Ystyried iechyd pobl a chymunedau wrth gynllunio mesurau a chamau gweithredu ar gyfer cyflawni Sero Net. | • Cynhaliwch Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer pob polisi a chynllun sy'n ymwneud â newid hinsawdd er mwyn deall unrhyw effeithiau niweidiol a hefyd er mwyn gwella tegwch. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn golygu cymhwyso fframweithiau aml-lefel yn ymwneud â phenderfynyddion iechyd, llesiant a thegwch at bolisïau a chynigion mewn proses ymgysylltu weithredol gyda chymunedau yr effeithir arnynt, rhanddeiliaid perthnasol, a llunwyr polisïau a phenderfyniadau. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal:** Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol). | 6. Mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb, hawliau plant a hawliau dynol, ac atal anghydraddoldebau newydd rhag digwydd, gan ehangu cydraddoldeb a hawliau dynol ymhlith pobl â nodweddion gwarchodedig. | • Dylai cyrff y Sector Cyhoeddus ystyried mesurau datgarboneiddio wrth gyflawni eu gofynion o dan y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.<br>• Sicrhewch fod gweithleoedd yn cynnig darlun cynrychiadol o'r gymdeithas ac o gymunedau.<br>• Mabwysiadwch Ymagwedd Hawliau Plant er mwyn sicrhau y caiff hawliau plant a phobl ifanc eu hamddiffyn ac y cânt eu cynnwys mewn prosesau penderfynu yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Gweler Hawliau Plant yng Nghymru \| LLYW.CYMRU. Cynhwysir hyn yn Nyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 ac fe'i hategir gan Hawliau Plant – Comisiynydd Plant Cymru (https://www.complantcymru.org.uk/). Trwy gynnwys yr agwedd hon ar y broses Asesu Effeithiau Cydraddoldeb, gellir sicrhau y rhoddir ystyriaeth a chamau dyladwy ar waith. |

| | | |
|---|---|---|
| | 7. Sicrhau bod costau a buddion yn cael eu dosbarthu'n deg: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd a chymdeithasol sy'n bodoli eisoes trwy rannu'n eang y buddion a ddaw yn sgil gweithredu ar yr hinsawdd, gan sicrhau y caiff y costau eu dosbarthu ar sail y gallu i dalu amdanynt. | |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:** Gwlad sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud rhywbeth o'r fath wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang. | 8. Ystyried yr effaith fyd-eang sydd ynghlwm wrth y pontio, atal allyriadau rhag cael eu symud dramor ac osgoi datgoedwigo. | • Dadansoddwch anghenion cymdeithas Cymru a'r gymuned fyd-eang wrth ddatblygu eich cynllun a/neu eich camau gweithredu ar gyfer cyflawni Sero Net.<br>• Mae hyn yn cynnwys asesu'r cyfraniad o ran diogelu hawliau dynol, hawliau menywod a hawliau gweithwyr ar lefel genedlaethol a rhyngwladol, ac ymdrin â'r effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol a gaiff Cymru oddi mewn i Gymru ei hun a hefyd dramor. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | 9. Sefyllfa lle bydd datgarboneiddio yn ategu diwylliant Cymru a'r Gymraeg, ac yn cyfrannu'n gadarnhaol atynt, gan esgor ar ganlyniadau iechyd cadarnhaol, llesiant personol, cydlyniant cymunedol a thwf economaidd yn enwedig mewn cymunedau gwledig. | • Ystyriwch yr effaith ar gymunedau gwledig wrth ichi gynllunio camau gweithredu gogyfer cyflawni Sero Net, gan sicrhau ymglymiad fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau tegwch mewn penderfyniadau. |
| Cymru o Gymunedau Cydlynys: Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da | 10. Mynd ati mor gynnar â phosibl i nodi, cynnwys a blaenoriaethu'r holl rai y bydd y pontio'n effeithio arnynt. | • Gweler Rhan 3 o'r ddogfen hon hefyd. Cynhwyswch bobl mor gynnar â phosibl. Ewch ati i gynnal gwaith dadansoddi rhanddeiliaid er mwyn pennu a blaenoriaethu'r rhai y bydd y pontio'n effeithio arnynt. Parhewch i weithio gyda phobl yn gynnar yn y broses, megis helpu i ganfod problemau ac atebion posibl, a'u helpu i barhau i gymryd rhan drwy gydol y broses gynllunio, y broses weithredu a'r broses werthuso. |

## Integreiddio’r pontio teg yn ein penderfyniadau

**Mae hi’n haws cynllunio pan fo gan y rhanddeiliaid ddealltwriaeth gyffredin o’r pontio.**

Yn gyffredinol, bydd yr ymdrechion cynllunio angen arweiniad – **bydd yr egwyddorion Pontio Teg** yn eich cynorthwyo i wneud hyn.

Hefyd, mae hi’n hanfodol deall y cyd-destun economaidd-gymdeithasol ehangach sy’n berthnasol i’r pontio. Bydd yn dylanwadu ar y rhai y gallai’r newid effeithio arnynt, a sut, ynghyd â phwy sydd â’r pŵer i weithredu, y buddiannau a’r normau a allai lywio gwahanol grwpiau, yn ogystal â’r cyd-destun polisi a’r cyd-destun sefydliadol. Ymhellach, mae deall y cyd-destun yn golygu deall pam y gall rhai grwpiau arbennig fod yn fwy agored i niwed nag eraill oherwydd y newid, fel y gellir mynd ati i lunio ymyriadau er mwyn lleihau anghydraddoldeb a grymuso’r grwpiau hyn.

**Dolenni’n arwain at ganllawiau ac offer sy’n ategu prosesau penderfynu:**

**Er enghraifft**

- *Cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi: cod ymarfer | LLYW.CYMRU*
- *Canllaw i waith teg*

**Astudiaethau Achos**

- Dolenni’n arwain at Astudiaethau Achos

## Dadansoddi Effeithiau a Chyfleoedd

**Fel y nodir yn yr egwyddorion canllaw, mae angen gwahanol fathau o ymchwil, data a dadansoddiadau ar gyfer llywio’r dasg o gynllunio ar gyfer pontio teg. Mae angen deall y risgiau a’r cyfleoedd posibl a all ddeillio o’r pontio.**

Mae’r rhain yn cynnwys effeithiau posibl ar gyflogaeth, amodau cymdeithasol, amodau economaidd, effeithiau diwylliannol a’r amgylchedd naturiol. Dylech hefyd ddeall y cyd-destunau cymdeithasol ac economaidd presennol er mwyn gweld ble yn union y gall gweithredu ar yr hinsawdd gyfrannu at ymdrin ag anghydraddoldebau.

Mae hi’n bwysig deall sut bydd risgiau a chyfleoedd yn cael eu dosbarthu. Bydd rhai pobl yn dioddef mwy o golledion neu fwy o galedi nag eraill, neu byddant yn llai galluog i ymdopi â newidiadau oherwydd eu hamgylchiadau, megis oherwydd eu rhywedd, eu hoedran, eu hethnigrwydd, eu statws cyflogaeth neu eu hanabledd, neu oherwydd ffactorau eraill.

| **Dolenni'n arwain at ganllawiau ac offer yn ymwneud â Thystiolaeth**<br><br>***Er enghraifft***<br>MapDataCymru<br>Llwybr Cytbwys y Pwyllgor Newid Hinsawdd |
| --- |
| **Astudiaethau Achos**<br>• Dolenni'n arwain at Astudiaethau Achos |

| **Gweithio gyda Rhanddeiliaid a chydgysylltu ymateb ar y cyd** |
| --- |
| **Mae'r egwyddorion canllaw yn dangos ei bod hi'n hanfodol rhoi proses gymdeithasol-gynhwysol ar waith er mwyn sicrhau pontio teg. Trwy ddefnyddio offer a dulliau, dylid mynd ati'n ofalus i bennu rhanddeiliaid perthnasol. Rhaid i'r gweithdrefnau a defnyddiwn fod â thegwch wrth eu calon a'u craidd.**<br><br>Cynhwyswch bobl mor gynnar â phosibl. Ewch ati i gynnal gwaith dadansoddi rhanddeiliaid er mwyn pennu a blaenoriaethu'r rhai y bydd y pontio'n effeithio arnynt. Parhewch i weithio gyda phobl yn gynnar yn y broses, megis helpu i ganfod problemau ac atebion posibl, a'u helpu i barhau i gymryd rhan drwy gydol y broses gynllunio, y broses weithredu a'r broses werthuso.<br><br>Gwnewch yn siŵr bod busnesau, y sector cyhoeddus, undebau llafur a'r trydydd sector, fel y bo'n briodol, yn cael eu cynnwys yn y gwaith o lunio camau gweithredu ar gyfer cyrraedd Sero Net. Gwnewch yn siŵr bod sefydliadau dibynadwy sy'n perthyn i'r gymdeithas sifil yn cael eu cynnwys yn gynnar wrth gynllunio ac wrth wneud penderfyniadau er mwyn gwella cyfreithlondeb y gweithdrefnau a thrwy hynny wella ymddiriedaeth yn y penderfyniadau. Cynhwyswch aelodau o'r cyhoedd er mwyn iddynt gael cyfle cyfartal i gymryd rhan mewn gweithredu ar yr hinsawdd ac adnabod y gwahaniaethau rhwng gwerthoedd diwylliannol-gymdeithasol a safleoedd pobl a grwpiau, eu hanghenion penodol a'r pethau penodol sy'n eu gwneud yn agored i niwed.<br><br>Hefyd, ystyriwch genedlaethau'r dyfodol, yn cynnwys gweithwyr y dyfodol, cymunedau, pobl ifanc a busnesau ymhlith eraill, gan sicrhau cyfleoedd a chymorth teg. Defnyddiwch fframweithiau amrywiaeth a chynhwysiant i sicrhau na chaiff neb eu hallgáu rhag pontio teg. |
| **Dolenni'n arwain at ganllawiau ac offer ynglŷn â'r canlynol:**<br>• Pennu Rhanddeiliaid<br>• Cynnwys Rhanddeiliaid<br>• Cydweithio ac Adnoddau<br><br>**Er enghraifft**<br>• *Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd* |

| **Astudiaethau Achos**<br>• Dolenni'n arwain at Astudiaethau Achos |
|---|

**Cwestiwn 9 – Beth yw eich barn ynglŷn â'r pecyn cymorth arfaethedig? Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:**

- Sut byddech chi/eich sefydliad yn defnyddio pecyn cymorth;
- Unrhyw elfennau ychwanegol y gellid eu cynnwys er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer pontio teg;
- Y modd y gellir llunio'r pecyn cymorth er mwyn sicrhau y bydd yn cynnig y gwerth mwyaf i wahanol fathau o randdeiliaid sy'n cynllunio ar gyfer pontio teg;
- Unrhyw astudiaethau achos neu offer ar-lein a allai fod yn rhan o'r pecyn cymorth, yn eich tyb chi.

## Atodiad – Camau Gweithredu

| Integreiddio'r pontio teg yn ein penderfyniadau | |
|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Amserlen** |
| Datblygu pecyn cymorth gyda rhanddeiliaid trwy gynnal ymgynghoriad, a'i gyhoeddi at ddefnydd ymarferwyr. Bydd y Pecyn Cymorth yn cynnwys egwyddorion canllaw i ategu arferion gorau y dylai ymarferwyr eu dilyn.<br><br>Bydd y pecyn cymorth hwn yn esblygu dros amser wrth i'r sylfaen dystiolaeth dyfu. | Ei gyhoeddi gyda'r fframwaith terfynol yn 2024 |
| Rhaid i Bontio Teg ddigwydd ar bob lefel, hynny yw ar lefel strategol, ar lefel sectoraidd, ar lefel sefydliadol ac ar lefel gymunedol, hyd at lefel polisïau unigol.<br><br>Ar lefel Polisi, bydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru ei hoffer penderfynu, megis yr Asesiad Effaith Integredig, er mwyn sicrhau y caiff Pontio Teg ei adlewyrchu.<br>Hefyd, disgwyliwn i'r sector cyhoeddus ehangach, ynghyd â busnesau o bob maint, integreiddio Pontio Teg yn eu penderfyniadau trwy ddefnyddio'r pecyn cymorth, er mwyn sicrhau y rhoddir ymagwedd gyson ar waith. | **O 2023** |
| Gweithio gyda phartneriaethau cymdeithasol fel y gellir deall yr heriau cydraddoldeb yn llwyr a chanolbwyntio ar y gwaith mae angen inni ei wneud ar y cyd, er mwyn cael marchnad lafur deg yng Nghymru. Byddwn yn ymgysylltu'n eang gyda grwpiau cydraddoldeb allweddol ledled Cymru i lywio'r gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu Pontio Teg ar gyfer Sgiliau.<br><br>Mae gwir angen integreiddio sgiliau sero net trwy holl bolisïau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y ceir gweithlu hynod fedrus, yn awr ac yn y dyfodol, ar gyfer diwallu anghenion yr economi. Byddwn yn parhau i ysgogi'r ymagwedd hon trwy gyflawni'r Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net. | Parhaus |
| Byddwn yn parhau i wella ein dealltwriaeth o degwch mewn polisi hinsawdd trwy gyfrwng gwaith ymchwil a thystiolaeth. Mae tegwch a chydraddoldeb wrth galon a chraidd ein pontio. Byddwn yn pennu'r dystiolaeth a'r ddealltwriaeth sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb a chyfiawnder yn gwbl ganolog i'r penderfyniadau a wneir i ddatgarboneiddio ein cymdeithas.<br><br>Byddwn hefyd yn disgwyl i eraill ddatblygu eu dealltwriaeth wrth iddynt gynllunio eu pontio eu hunain. | Parhaus |
| Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau yr ymwreiddir Pontio Teg yn y Cynllun Cymru Sero Net nesaf trwy ddefnyddio'r egwyddorion canllaw a nodir yn y ddogfen hon. | Parhaus |

| | |
|---|---|
| Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgorffori pontio teg mewn polisïau, cynlluniau gweithredu a strategaethau sydd i ddod gan ddechrau yng nghyllideb garbon 2.<br><br>Hefyd, byddwn yn disgwyl i eraill integreiddio ystyriaethau'n ymwneud â chynllunio pontio teg yn eu hymagweddau strategol, eu hymagweddau busnes a'u hymagweddau polisi allweddol. | |
| | |

**Adeiladu ein Sylfaen Dystiolaeth – Dadansoddi Effeithiau a Chyfleoedd**

| Camau Gweithredu | Amserlen |
|---|---|
| Byddwn yn parhau i bennu'r effeithiau a'r cyfleoedd ar draws ein sectorau allyriadau er mwyn blaenoriaethu'r camau gweithredu i sicrhau pontio teg.<br><br>Byddwn yn gwneud hyn trwy adeiladu ar y Galwad am Dystiolaeth er mwyn inni allu rhannu gwybodaeth a data gyda rhanddeiliaid. Byddwn yn cyfeirio rhanddeiliaid at dystiolaeth trwy gyfrwng ein Pecyn Cymorth a hefyd byddwn yn nodi bylchau mewn tystiolaeth.<br><br>Hefyd, disgwyliwn i fusnesau ac i'r sector cyhoeddus ehangach ddechrau adeiladu'r sylfaen dystiolaeth yn eu meysydd er mwyn deall y risgiau a'r cyfleoedd allweddol. | 2024-25 |
| Eisoes, rydym wedi dechrau gweithio yn y maes hwn trwy gyfrwng y Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net[21] a'r Ymgynghoriad Sgiliau Sero Net, a fydd yn ein helpu i ddeall beth yw'r sefyllfa bresennol o ran sgiliau yng Nghymru, yn cynnwys pa sgiliau mae eu hangen yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir a sut byddwn yn cyflawni hyn. Yn 2024, byddwn yn datblygu Mapiau Trywydd sgiliau ar gyfer y sector cyhoeddus er mwyn ein helpu i gynllunio'r sgiliau y bydd eu hangen i ategu'r pontio. | Parhaus |
| Byddwn yn archwilio ffyrdd o ddeall y pethau sy'n gwneud pobl yn agored i niwed mewn gwahanol rannau o'n cymdeithas a'n heconomi mewn perthynas â'r newidiadau mae eu hangen i gyrraedd Sero Net.<br><br>Yn achos rhanddeiliaid sy'n cynllunio pontio teg ac sy'n datblygu mesurau lliniaru, mae angen iddynt ddeall yr effeithiau a'r cyfleoedd yn eu maes neu eu sector. | Parhaus |
| Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol er mwyn pennu a chasglu tystiolaeth yn ymwneud ag amrywiaeth o gamau gweithredu, fel y | Parhaus |

[21] Cynllun gweithredu sgiliau sero net | LLYW.CYMRU

| | |
|---|---|
| gellir rhoi pontio teg ar waith. Rhaid i Bontio Teg ddigwydd ar bob lefel, oddi mewn i fusnesau, yn y sector cyhoeddus ac ar lefel y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys mesurau polisi rhyngwladol a fydd yn esgor ar fuddion yn ymwneud â'r hinsawdd a buddion cymdeithasol. Byddwn yn rhannu ein Pecyn Cymorth gyda'n rhanddeiliaid er mwyn rhannu gwybodaeth. | |
| Byddwn yn casglu tystiolaeth ynglŷn â sut byddwn yn cyfathrebu pontio teg gyda'r cyhoedd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys mewn ffordd deg.<br><br>Byddwn yn adeiladu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn mae pontio teg yn ei olygu. Er mwyn sicrhau cymorth hirdymor i gynlluniau pontio teg, bydd yn hanfodol inni ddeall sut i gyfathrebu ein hymagwedd at bontio teg mewn ffordd sy'n taro tant gydag amryfal gynulleidfaoedd. | Parhaus |
| Bydd ein hymagwedd gyffredinol ar gyfer monitro a gwerthuso yn cael ei harchwilio dros y cyfnod hyd at gyhoeddi'r cynllun sero net nesaf. Bydd yr ymagwedd yn cyd-fynd â'r fframwaith ehangach ar gyfer monitro newid hinsawdd a chyflawni'r 7 nod llesiant.<br><br>Yn Cymru Sero Net (2021), nodir sut mae'r camau yn y Cynllun hwnnw yn cyfrannu at y 10 amcan llesiant y bydd y llywodraeth yn eu defnyddio i gyfrannu at saith nod llesiant hirdymor Cymru a'r camau y byddwn yn eu cymryd er mwyn eu cyflawni dros dymor presennol y llywodraeth (2021-2025). Mae'r Fframwaith hwn yn cyfrannu at gyflawni Polisi 1 y Cynllun hwnnw, ac o ganlyniad mae'n cyfrannu at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.<br><br>Hefyd, disgwyliwn i eraill ystyried sut byddant yn mesur eu hystyriaethau pontio teg. | 2024-2026 |
| | |

| Gweithio gyda Rhanddeiliaid a Chydgysylltu Ymateb ar y Cyd | |
|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Amserlen** |
| Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu pecyn cymorth a fydd yn galluogi eraill i baratoi ar gyfer y pontio.<br><br>Disgwyliwn i fusnesau ac i'r sector cyhoeddus ehangach ddechrau defnyddio'r pecyn cymorth gyda'u hundebau llafur a/neu eu gweithwyr, er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer y dyfodol. | 2024 |

| | |
|---|---|
| Byddwn yn archwilio opsiynau ar gyfer cefnogi deialog gymdeithasol effeithiol rhwng Undebau Llafur, Busnesau a'r Llywodraeth, gan sicrhau bod gweithwyr yn deall y posibiliadau, y risgiau a'r buddion sy'n gysylltiedig â phontio teg. | O 2023 |
| Gweithio gyda Phartneriaid Rhyngwladol i rannu gwybodaeth ac arferion gorau. | O 2023 |
| Gweithio gyda Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau datganoledig ar faterion lle mae'r cyfrifoldeb dros gamau gweithredu a mesurau sy'n effeithio ar Gymru yn gorwedd gyda Llywodraeth y DU. | Parhaus |
| Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr yn y sector cyhoeddus, gan ddefnyddio strwythurau presennol i rannu gwybodaeth am gynllunio a gweithredu Pontio Teg. | O 2023 |
| Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu i ba raddau mae ymgysylltu cydgynghorol â'r cyhoedd ynglŷn â'r argyfyngau hinsawdd a natur yn cael ei wneud eisoes ledled Cymru (a chan bwy). Bydd hyn yn cynnwys ystyried gwahanol grwpiau a gwahanol rannau o'r gymdeithas sy'n cymryd rhan mewn ymgysylltu o'r fath er mwyn llywio mwy fyth ar ein hymagwedd at gynnwys pobl yn y pontio teg.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio canfyddiadau'r adolygiad hwn i ystyried atebion ar gyfer dull mwy cydgysylltiedig o ymgysylltu â'r cyhoedd (yn cynnwys ymgysylltu ynglŷn â'r pontio teg), fel rhan o'r argyfyngau hinsawdd a natur ledled Cymru. | |
| Byddwn yn datblygu amrywiaeth o gynhyrchion ac ymagweddau cyfathrebu er mwyn meithrin gwybodaeth a gallu ynglŷn â Phontio Teg (gwybodaeth a gallu y gall rhanddeiliaid eu defnyddio), a hefyd er mwyn cynorthwyo'r cyhoedd i gymryd rhan. | |

## Cwestiynau

**Cwestiwn 1: Beth yw eich barn ynglŷn â'r Weledigaeth arfaethedig ar gyfer Cymru Decach a Gwyrddach erbyn 2050?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- A yw'r weledigaeth a gynigir yn adlewyrchu eich barn ynglŷn â'r hyn y dylai Cymru wyrddach fod;
- Unrhyw ffactorau ychwanegol y dylid eu cynnwys yn y weledigaeth, yn eich tyb chi.

**Cwestiwn 2: Beth yw eich barn ynglŷn â'n hymagwedd arfaethedig at bontio teg yng Nghymru?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- Y defnydd a wneir o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel fframwaith canllaw;
- Y mathau o gyfiawnder a gynhwysir, a pha un a ellir adlewyrchu mathau eraill o gyfiawnder neu ymagweddau;
- Unrhyw ffactorau ychwanegol y dylid eu cynnwys, yn eich tyb chi.

**Cwestiwn 3: Beth yw eich barn ynglŷn â strwythur cyffredinol y fframwaith arfaethedig?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- Pa mor briodol yw'r strwythur ar gyfer cyfathrebu ein hymagwedd a'n camau gweithredu ar gyfer pontio teg;
- Unrhyw elfennau ychwanegol y dylid eu cynnwys, yn eich tyb chi.

**Cwestiwn 4: Beth yw eich barn ynglŷn â'r egwyddorion canllaw?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- Pa mor effeithiol fydd yr egwyddorion yn integreiddio pontio teg mewn prosesau penderfynu;
- A fyddai'r egwyddorion hyn yn ddefnyddiol i sefydliadau oddi allan i Lywodraeth Cymru;
- Sut gall sefydliadau ddefnyddio neu gymhwyso'r egwyddorion hyn er mwyn integreiddio Pontio Teg mewn prosesau penderfynu;
- A oes bylchau yn yr egwyddorion neu a oes pethau wedi'u hepgor;
- Y cysylltiad rhwng yr egwyddorion a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Cwestiwn 5: Beth yw eich barn ynglŷn â'r ymagwedd arfaethedig at gynllunio ar gyfer gwahanol fathau o Bontio?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:

- Y gwahanol fathau o bontio a nodir;
- Pa brosesau y dylid eu defnyddio i integreiddio pontio teg mewn prosesau penderfynu;

- Cyd-destunau neu sefyllfaoedd ychwanegol pan fydd angen cynllunio ar gyfer pontio teg;
- Unrhyw ffactorau ychwanegol y dylai Llywodraeth Cymru eu cynnwys yn yr ymagwedd, yn eich tyb chi.

**Cwestiwn 6: Beth yw eich barn ynglŷn â'r lensys arfaethedig ar gyfer archwilio'r effeithiau a'r cyfleoedd economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a fydd yn deillio o'r pontio?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:
- Effeithiau a Chyfleoedd ar draws ein Sectorau Allyriadau dros amser;
- Effeithiau a Chyfleoedd ar Gyflogaeth a Busnes;
- Effeithiau a Chyfleoedd ar gyfer gwahanol grwpiau mewn cymdeithas;
- Effeithiau a Chyfleoedd mewn gwahanol rannau o Gymru;
- Unrhyw ffactorau ychwanegol y dylid eu hystyried, yn eich tyb chi.

**Cwestiwn 7: Beth yw eich barn ynglŷn â'r arweiniad, y cydweithio, a'r rolau a'r cyfrifoldebau arfaethedig ar gyfer cyflawni Pontio Teg?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:
- Llywodraeth Cymru;
- Llywodraeth y DU;
- Tîm Cymru;
- Oddi mewn i sefydliadau unigol;
- Cymunedau;
- Y byd academaidd ac addysgwyr;
- Unrhyw randdeiliaid eraill y dylid eu cynnwys, yn eich tyb chi.

**Cwestiwn 8: Yn eich tyb chi, sut gellir mynd ati yn y ffordd fwyaf effeithiol i gynnwys pobl a chymunedau Cymru yn y gwaith o gynllunio ar gyfer pontio teg?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:
- Gwahanol ymagweddau y gallai Llywodraeth Cymru eu hystyried;
- Sut byddech yn cynnwys unigolion yn eich busnes/cymuned/sefydliad i sicrhau bod y gwaith cynllunio'n berthnasol ac yn effeithiol, a pha wybodaeth a allai eich helpu i wneud hyn.

**Cwestiwn 9: Beth yw eich barn ynglŷn â'r pecyn cymorth arfaethedig?**

Efallai y dymunwch ystyried y canlynol:
- Sut byddech chi/eich sefydliad yn defnyddio pecyn cymorth;
- Unrhyw elfennau ychwanegol y gellid eu cynnwys er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer pontio teg;
- Y modd y gellir llunio'r pecyn cymorth er mwyn sicrhau y bydd yn cynnig y gwerth mwyaf i wahanol fathau o randdeiliaid sy'n cynllunio ar gyfer pontio teg;
- Unrhyw astudiaethau achos neu offer ar-lein a allai fod yn rhan o'r pecyn cymorth, yn eich tyb chi.

**Cwestiwn 10: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y Fframwaith Pontio Teg ar y Gymraeg?** Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- A ydych yn meddwl bod yna gyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
- A ydych yn meddwl bod yna gyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 11: Yn eich barn chi, a oes modd llunio'r Fframwaith Pontio Teg, neu ei newid:**

- fel ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg; neu
- er mwyn lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg?

**Cwestiwn 12: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma.**